

## Nodiadau Gweithdai Tynged yr Iaith Sir Gâr 2021?

### **Dyfodol Cymunedau Cymraeg gwledig ac ôl-ddiwydiannol dan arweiniad Cefin Campbell**

Yn Chwefror 2017, penderfynodd Cyngor Sir Caerfyrddin sefydlu tasglu adfywio cymunedau gwledig, a hynny er mwyn sicrhau cydbwysedd wrth fod sylw mawr i ddatblygiad Bae Abertawe. Penodwyd Cyng. Cefin Campbell yn gadeirydd ar y tasglu fel un o'i gyfrifoldebau ar Fwrdd Gweithredol y Cyngor. Mae'r gweithgor yn awyddus i dderbyn tystiolaeth gan gynghorau bro a thrigolion, ac fe gaiff yr ymgynghoriad ei lansio yn y Ffair Aeaf a noddir eleni gan Sir Gaerfyrddin. Y bwriad fydd cynnal ymchwiliad cynhwysol trawsbleidiol a ffurfio adroddiad yn ôl patrwm yr adroddiad ar strategaeth iaith a luniwyd gan weithgor tebyg o'r Cyngor (hefyd dan gadeiryddiaeth Cefin) yn 2013-14. Bydd nifer o adrannau/meysydd diddordeb, a'r Gymraeg fel edefyn trwy'r cyfan:

- \*Adfywio economaidd
- \*Datblygu busnesau
- \*Cefnogi Amaeth
- \*Cefnogi'r economi gwyrdd
- \*Gwasanaethau Iechyd a Gofal cymdeithasol
- \*Trafnidiaeth Gyhoeddus
- \*Twristiaeth
- \*Addysg Wledig
- \*Tai fforddiadwy
- \*Problemau newid demograffeg
- \*Hybu Mentrau Cydweithredol
- \*Datblygiad Band Llydan
- \*Polisi Caffael lleol (wedi llacio rheolau Ewrop)
- \*Cynhyrchu a Phrosesu Bwyd

Awgrymwyd y gallai'r penawdau fod yn rhagweladwy ac yn draddodiadol ac yn anogaeth i bobl leisio cwynion arferol. Galwyd am feddwl strategol o'r newydd i ddatblygu cymunedau gwledig yn hytrach nag amddiffyn yn unig yr hyn sydd. Awgrymwyd cydnabod fod patrymau cymdeithasol bellach yn fwy soffistigedig a chyflwynwyd cysyniad "cyloedd consentrig" (micro-gymuned bentrefol > Pentrefi canolog > trefi "marchnad" bychain > prif dre) a bod angen llunio beth sydd i'w wneud orau ym mhob cylch consentrig a sut i hybu'r cyswllt bywiol rhyngddynt.

Nodwyd fod argyfwng yn ein cymunedau gwledig. Nodwyd fod 36% o bobl y sir yn gyffredinol yn byw mewn tldi (incwm teuluol llai na 60% cyfartaledd Cymru), ond bod 58% o bobl y cymunedau gwledig yn byw mewn tldi. Nodwyd mai incwm amaethwyr (Cymru) yn gyffredinol yw £12,000 p.a. (sef lefel tldi) a gall yr incwm leihau o ganlyniad i Brexit. Nodwyd fod Sir Gaerfyrddin yn colli tua 1000 o bobl ifainc bob blwyddyn, nifer helaeth ohonynt o gymunedau gwledig, ac amcangyfrifir fod rhyw 600 y flwyddyn o'r rhain yn Gymry Cymraeg ifainc, a bod yr allfudiad hwn yn bennaf fygythiad i'r Gymraeg yn ein hardaloedd gwledig. Nodwyd mai'r ffactorau allweddol oedd

- (1) Gwaith - nodwyd fod cau ffatrioedd gwledig mawr fel hufenfeydd, a bod angen datblygu swyddi sgiliau newydd ac ymarferol ar gyfer pobl y cymunedau gwledig. Nodwyd diffyg band llydan fel problem sefydlu busnesau a'r angen am awdit gwledig o'r bylchau yn y farchnad y gallai crefftwy'r ifainc lleol eu llenwi.
- (2) Tai fforddiadwy (cynnwys ar rent) nodwyd fod cysylltiad ag adolygiad cyfamserol y Cynllun Datblygu Lleol - lle gall fod galw am lacio rheolau cynllunio er mwyn adeiladu nifer a math addas o dai ar gyfer cymunedau gwledig yn lle canoli datblygiadau
- (3) Gwasanaethau - nodwyd fod ardal wledig eang fel Dyffryn Cothi wedi colli'r holl waed ifanc o ganlyniad i gau ysgolion (gall fod ond un ysgol ar ôl rhwng Llandeilo a Llanbedr), a bod newid demograffig wrth fod mewnfudwyr yn dod i lenwi'r gwagle.

Gall fod angen pwysu ar lefelau eraill llywodraeth hefyd i gyfrannu at strategaeth datblygu cymunedau gwledig. O ran llywodraeth ganolog, cyfeiriwyd at y rhagdyb newydd o blaid ysgolion gwledig a'r angen i'w datblygu yn hytrach na'u cadw'n unig. Dywedwyd hefyd fod trafod gyda Llywodraeth Cymru bosibiliad sefydlu "Bargen Wledig" - sef pot o gyllid y gellid gwneud cais am

arian ohono i gyllido prosiectau datblygu gwledig - yn gyfatebol i'w "city deals".

Nodwyd, heb gynnig datrysiaid, y cwestiwn o ran diffiniad cymunedau gwledig a bod llawer o'r un problemau mewn cymunedau ôl-ddiwydiannol fel yng Nghwm Gwendraeth.

Gwahoddwyd tystiolaeth i'r gweithgor a fydd yn cyflwyno adroddiad mewn tua 18 mis.

### **Addysg Gymraeg** dan arweiniad Glynog Davies

Diweddariad Glynog:

Pwysleisiodd rôl allweddol addysg a'i fod yn ffactor wrth gyfrannu at dwf y Gymraeg. E.e. Mae plentyn o aelwyd gymysg yn gallu gweld y Gymraeg fel rhywbeth addysgol yn unig, a rhieni'n ddibynnol ar ysgol yn unig o ran y Gymraeg,

Mae'n bwysig normaleiddio a gwneud y Gymraeg yn iaith naturiol eto. Rhaid defnyddio addysg hyd yr eithaf ar gyfer hyn ond manteisio ar gyfleoedd cymdeithasol hefyd.

Llangennech:

Nodwyd ei bod yn wych gweld yr ymateb cadarnhaol i'r ysgol newydd. Nodwyd tristwch bod Cymry Cymraeg ymhlith y gwrthwynebwyr ac i nifer o gefnogwyr gadw'n dawel ac 'urddasol'

Nodwyd bod anghenion arbennig gan blant y gwrthwynebwyr a hynny wedi'i ddefnyddio fel arf felly codwyd pwynt fod angen felly ystyried anghenion arbennig drwy'r Gymraeg.

Mae'r cyngor wedi dysgu drwy'r broses ac yn gweld angen i ymwneud yn fwy gyda phobl ac ymgynghori'n fwy. Er hynny dydy'r cyngor ddim wedi cael ofn o ran symud ysgolion ar hyd y continwmm.

Cyfeiriwyd yn benodol at Copperworks yn Llanelli ble mae rhieni'n rhoi 30 o blant yn y ffrwd Gymraeg ble'r oedden nhw yn y ffrwd Saesneg.

Nodwyd nad yw ysgolion Cymraeg yn gweithio o ran sicrhau bod y Gymraeg yn iaith sy'n cael ei defnyddio, does gan rieni ddim dewis pa iaith sy'n ael ei siarad ar yr iard hyd yn oed os yw gwersi'n digwydd yn Gymraeg.

Ymhellach mae Saesneg plant mewn ffrydiau Cymraeg gystal â Saesneg plant y ffrwd Saesneg yn yr ysgolion dwy ffrwd felly plant y ffrwd Gymraeg sydd yn wirioneddol ddwyieithog yn hytrach na phlant y ffrwd Saesneg.

Mae sefyllfa ysgol Gymraeg Llanelli yn warthus – aelodau Llafur yn gwrthwynebu'r safle newydd ar sail ei fod yn llecyn gwyrdd.

Trosglwyddo o gynradd i uwchradd:

Nodwyd ei fod yn wendid fod plant yn symud o addysg gynradd Gymraeg iaith gyntaf i uwchradd ail iaith.

Nododd Gareth Morgans fod 93% o blant y sir yn mewn addysg Gymraeg iaith gyntaf Yn ogystal mae £300,000 o grant i wella Cymraeg athrawon uwchradd y sir.

Cyfeiriwyd yn benodol at Langennech, sydd yn annog rhieni i ddanfôn eu plant i Strade ond bod rhai yn dewis mynd i Fryngwyn; ac at dref Caerfyrddin, ble mae'r cyngor yn gweld angen i annog rhieni i ddewis Bro Myrddin dros QE High.

Cyfeiriwyd at fwriad y Llywodraeth i ddileu Cymraeg ail iaith fel pwnc a'i newid i fod yn gyfrwng dysgu i bawb, ac y bydd cyfle yn hynny.

Nodwyd bod ysgol Dyffryn Taf yn agosach i nifer o blant ond bod hawl mynd i Fro Myrddin a bod cludiant am ddim.

Nododd Glynog ei fod yn gam ymlaen fod plant yn symud o dderbyn addysg gynradd Gymraeg yn naturiol i addysg uwchradd Gymraeg, a'r rhieni nad sydd eisiau i'w plant dderbyn addysg Gymraeg yn gorfod dewis hynny.

Cyfeiriwyd yn benodol at Rydaman ble mae tri dosbarth Cymraeg iaith gyntaf bellach.

Nodwyd ei bod yn bwysig dechrau gyda dosbarthiadau meithrin, dywedodd Gareth Morgans fod y cyngor yn cydweithio â Mudiad Meithrin ond bod niferoedd yn broblem (?)

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Yn Llangynnwr mae un dosbarth Saesneg a thri dosbarth Cymraeg. I newid yr ysgol i fod yn Gymraeg y cam cyntaf yw newid y dosbarth cyfnod sylfaen i fod yn Gymraeg ond bod angen bod yn sensitif wrth wneud.

Nodwyd bod ysgol Rhys Pritchard wedi troi'n Gymraeg bellach

Yn Nhalacharn mae tair ysgol Saesneg, y bwriad yw cau'r tair a chreu un ysgol ddwy ffrwd. Dydy'r aelod lleol ddim wedi gwrthwynebu o gwbl.

Ysgolion gwledig

Does dim awydd gan y cyngor i'w cau.

Mae straen ariannol difrifol er hynny a dydy llywodraeth Cymru ddim yn 'ring-fencio' cyllid addysg Gymraeg felly rhaid gofyn am adnoddau o hyn. Mae ysgolion gwledig yn bwysig ond ydy Kirsty Williams yn mynd i arwain.

Nodwyd bod niferoedd plant yn bwysig.

Ym Mancffosfelen a Llangyndeyrn mae prinder plant a phlant o Fancffosfelen yn mynd i Bontyberem.

Mae Gareth Morgans wedi dysgu mewn ysgol fach wledig, ac wedi dweud ei fod yn bosibl ond ddim yn gynaliadwy oherwydd yr her i'r arweinyddiaeth a'r her ariannol. Petai mwy o arian byddai'n fwy posibl. Mae'n anodd cael penaethiaid.

Awgrymwyd nad yw manteision safon addysg ysgol fawr yn gallu cael eu cynnig mewn ysgolion gwledig.

Mae prinder athrawon, a dydy'r ffaith bod angen B mewn Saesneg a Maths ddim yn helpu.

Nodwyd hefyd bod prinder myfyrwyr lefel a Chymraeg a bod cynnwys y cyrsiau TGAU yn warthus ond mai'r cydbwyllogor addysg sy'n penderfynu cynnwys cyrsiau a bod angen i rieni gysylltu gyda nhw'n uniongyrchol.

Trochi:

Holwyd am drochi mewnfudwyr mewn canolfan iaith, ond nododd Gareth Morgans ei bod yn fwy hyblyg i fynd at y plant. Bydd edrych ar system Gwynedd ond byddai cost i hynny.

Gofynnwyd am athrawon bro a nodi bod cyfle i'r cyngor roi cais i Lywodraeth Cymru am gyllid, a bod peilot yn bosibl.

Cyfeiriwyd at Gaerdydd ble mae addysg Gymraeg yn norm i bawb, ac nad oes lleiafrifoedd ethnig yn ysgolion Cymraeg Sir Gâr. Ble mae plant meddygon Glangwili etc? Mae nifer yn QE High.

Gareth – y prif ffactor yw bod y plant hyn yn dueddol i fynd gyda'i gilydd fel criw i'r un ysgol.

Anogwyd ceisio cael gafael ar y teuluoedd hyn pan fod y plant yn ifanc iawn – oes cynllun tebyg i gynllun "TWF" oedd yn rhannu gwybodaeth i famau beichiog yn yr ysbyty e.e. Cyfeiriodd Gareth eto at y llyfryn gwyrdd sy'n dosbarthu gwybodaeth am addysg Gymraeg.

Canolfannau Integredig – dylai fod cyfle yn y rhain i drwytho plant 2/3 oed yn yr iaith. Nodwyd bod y ganolfan integredig yn Nhrimsaran newydd benodi rhywun di-gymraeg i swydd yno – bydd Gareth yn ymchwilio.

**Cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol** dan arweiniad Alun Lenny (AL)

Esboniwyd y gyfundrefn gynllunio.

- Yn groes i amcanestyniadau'r Llywodraeth oedd yn sail i'r Cynllun Datblygu Lleol cyfredol, roedd yn amlwg erbyn hyn bod mewnlifiad wedi gostwng yn sylweddol.

- Roedd yna enghreifftiau calonogol o bobl ifanc yn symud yn ôl i'r gorllewin i fagu teuluoedd.
- Dynodwyd Caerfyrddin yn dref dwf, a'r disgwyl oedd y byddai degau o gwmnïau yn symud i'r dref a'r ardal diolch i'r penderfyniad i symud pencadlys S4C.
- Roedd 96% o'r unedau masnachol yn llawn yn y dref.

Mynegodd AL bryder am y posibilrwydd y gallai Dinas Ranbarth Bae Abertawe, neu Y Fargen Ddinesig, gipio cyfrifoldeb dros gynllunio oddi ar y siroedd. Byddai 'aelodau anetholedig' yr awdurdod newydd yn gallu derbyn ceisiadau cynllunio gan osgoi'r pwyllgorau cynllunio, ond doedd dim manylion pellach (e.e. y ffiniau o fewn Sir Gâr) ar gael eto.

Wrth ymateb i'r crynhoad, mynnodd arweinydd y Cyngor, Emlyn Dole, fod natur y prosiect wedi newid. Nid cwango ond partneriaeth rhwng yr awdurdodau lleol oedd y Fargen Ddinesig.

Gofynnwyd cwestiwn am dai fforddiadwy (bwriedir codi 1,000 o dai fforddiadwy yn y sir yn ystod y 4 blynedd nesaf). Bydd tair ardal:

- Llanelli (cyfraniad o 10% o dai fforddiadwy)
- Cwm Gwendraeth (20% o dai fforddiadwy ym mhob datblygiad o bwys)
- Ardaloedd eraill (gogledd y sir yn bennaf): 30%.

Gofynnwyd pam bod angen tai newydd o gwbl, gan fod cymaint o dai gwag yn y sir

- Doedd y tai gwag ddim yn y manau iawn, fel arfer. Roedd yn bwysig cael tir a darparu tai newydd ar gyfer pobl leol.

Wedi dweud hynny, dywedodd AL fod y Cyngor Sir wedi pasio polisi a fyddai'n helpu pobl ifanc leol i droi hen adeiladau fferm yn anheddau yn hytrach na thai haf. Yn anffodus doedd neb wedi manteisio ar y rheolau newydd.

Trafodwyd ymdrechion trefi bach Cernyw (St Ives) i roi blaenoriaeth i bobl leol, yn gyffredinol roedd pawb yn gefnogol i'r syniad.

A oedd angen 1,200 o dai newydd yng ngorllewin Caerfyrddin?

AL – pwynt pwysig. Roedd yr adran cynllunio am gysylltu â Persimmon i ofyn am dystiolaeth gadarn. Yn gyffredinol, roedd y Cyngor yn awyddus i ddi-ddymu caniatâd cynllunio os nad oedd dystiolaeth bod y datblygwyr yn bwriadu codi tai. Erbyn hyn roedd y Cyngor wedi caniatáu 6,100 o dai newydd ledled y sir, ac roedd yr adran cynllunio yn bwrw ati i ofyn faint o'r cyfanswm yna fyddai'n cael eu hadeiladu.

Gofynnwyd beth fyddai'n digwydd petai'r Cyngor yn gwrthod derbyn gorchmynion ac amcanestyniadau'r Llywodraeth.

AL – yn anffodus, roedd y siroedd i gyd 'mas o step' o ran diwygio eu cynlluniau datblygu.

Dywedodd Emlyn Dole mai "Cynllun Caerdydd" oedd Cynllun Datblygu Lleol Sir Gâr. "Mae angen datganoli pwerau o fewn Cymru", fel bod gan y siroedd fwy o ryddid i lunio eu cynlluniau eu hunain. Ac roedd angen datganoli oddi fewn y siroedd i'w cymunedau.

AL Byddai'n rhaid i gynghorau cymunedol "gamu lan i'r plât" a derbyn mwy o gyfrifoldeb dros gynllunio. Roedd hyn eisoes yn digwydd yn Lloegr lle mae cymunedau (pentrefi a threfi llai) bellach yn gorfod cyflwyno cynlluniau cymunedol.

**Ieuencid a Hamdden** dan arweinaid Peter Hughes-Griffiths

1. Gweithwyr ieuencid y Cyngor: penodi'r "person gorau am y swydd" fel arfer a ddim yn gweld y Gymraeg fel sgil

2. Gwersi nofio yn Gymraeg: nodwyd fod y Pennaeth yn ymwybodol o'r angen ers peth amser ond falle nad oedd symud ymlaen gyda datrys y sefyllfa. Cafwyd cadarnhad fod y Cyngor yn trio datrys hyn. Nodwyd y dylid anelu at gynnig gwersi nofio Cymraeg a dwyieithog a dileu gwersi Nofio Saesneg.

Gellid hyrwyddo cyfleon gwaith fel hyfforddwyr nofio a chadw'n heini mewn ysgolion uwchradd lleol ac mewn colegau

Nodwyd fod cadw'n heini wedi tyfu'n aruthrol mewn poblogrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Angen sicrhau fod y Gymraeg yn glywadwy mewn canolfannau hamdden ac yn weladwy ee technoleg - mapiau ar feiciau cadw'n heini

3. Edrych yn fwy creadigol ar glybiau pêl-droed a'r Scarlets o safbwynt yr iaith. Allai'r Scarlets ee wobrwyo ysgolion sy'n dilyn y Siarter Iaith? Tocynnau i gemau i'r ysgolion hynny.

Angen clymu chwaraeon a'r Gymraeg

Falle gallai clybiau pêl-droed lleol annog plant ysgol i ddod i gefnogi, a hynny'n Gymraeg

4. Trafodwyd Y Lle yn Llanelli a llongyfarchwyd Owain. Nodwyd fod gweithio gydag ieuenctid yn cymryd blynyddoedd i gael effaith. Yn ogystal â chynnig cyfle i bobl ifanc gymdeithasu'n Gymraeg y nod yw cynyddu ymwybyddiaeth o hanes a diwylliant Cymru hefyd

5. Efallai y dylid ehangu hyn i weithwyr y Cyngor yn gyffredinol ac yn enwedig yr adran dwristiaeth. Dylid cynnal sesiynau ymwybyddiaeth o hanes a diwylliant.

6. Nodwyd bod angen gwneud mwy o ddefnydd cymunedol o theatrau a cheisio rhannu adnoddau. Falle dylid cynnig telerau gwell i grwpiau sy'n gwneud defnydd o'r Gymraeg